



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cadeirydd/Chair: **Emma Woollett**
Prif Weithredwr/Chief Executive: **Tracy Myhill**

gofalu am ein gilydd, cydweithio, gwella bob amser
caring for each other, working together, always improving

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Dyddiad/Date: 24 Medi 2020
Ein Cyf / Our Ref: 20-H-016

☎ 01639 648363

✉ FOIA.Requests@wales.nhs.uk

Gwasanaethau Corfforaethol
Pencadlys
1 Porthfa Talbot
Baglan
Port Talbot, SA12 7BR

Cyfeiriaf at eich cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gydnabuwyd gennym ar 7 Awst 2020. Roedd eich cais yn gofyn am wybodaeth am staff Iechyd Meddwl sy'n siarad Cymraeg.

Eglurwyd gennych ar 12 Medi 2020 eich bod am dderbyn y wybodaeth fel yr oedd ar y dyddiad hwnnw.

Yn anffodus, data ar gyfer 14 Awst 2020 yw'r data diweddaraf sydd gennym yn ganolog.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gennym wedi'i chymryd o'n Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae'r wybodaeth a gedwir ar ESR yn cynnwys myfyrwyr yn ogystal â staff locwm, staff banc a staff anrhydeddus - nid yw staff asiantaethau wedi'u cynnwys.

Mae'r data a gedwir ar ESR am sgiliau Cymraeg yn dibynnu ar aelodau'r staff yn cwblhau'r adran hon o'u cofnod staff. Os nad yw aelod o staff wedi cwblhau'r adran hon, dylid cadw mewn cof na chaiff y wybodaeth ei hadlewyrchu yn y ffigurau. Mae gan y Bwrdd Iechyd ymgyrch barhaus i annog staff i ddiweddarau eu cofnodion staff eu hunain ar ESR er mwyn gwella a chynnal ansawdd y data staff.

O'r 1281 o staff Iechyd Meddwl, mae 290 o unigolion wedi cwblhau'r adran am eu cymhwysedd yn yr Iaith Gymraeg ar ESR. Felly, nid yw'r ffigurau a nodir isod ond yn adlewyrchu'r cofnodion hynny a ddiweddarwyd gan yr unigolion.

1. Cyfanswm nifer y staff sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl sy'n siarad Cymraeg (i safon ganolradd, uwch neu hyfedredd)

Mae 21 o'r 290 o staff sydd wedi cwblhau'r adran hon am gymhwysedd yn yr iaith Gymraeg ar ESR, yn siarad Cymraeg i safon ganolradd, uwch neu hyfedredd.



Pencadlys BIP Bae Abertawe, Un Porthfa Talbot, Port Talbot, SA12 7BR / Swansea Bay UHB Headquarters, One Talbot Gateway, Port Talbot, SA12 7BR

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board is the operational name of Swansea Bay University Local Health Board

Mae'r 269 o aelodau staff eraill a gwblhaodd yr adran hon naill ai wedi eu rhestru eu hunain dan "Dim Sgiliau" "Sgiliau Lefel Mynediad" neu "Sgiliau Sylfaen".

2. Canran y staff sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl sy'n siarad Cymraeg (i safon ganolradd, uwch neu hyfedredd)

Er mai canran o'r 1281 o aelodau staff Iechyd Meddwl yw hyn, noder unwaith eto mai dim ond adlewyrchu'r 290 o aelodau staff sydd wedi cwblhau'r adran am eu cymhwysedd yn yr iaith Gymraeg ar ESR a wna'r ganran hon.

1.64%

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Os bydd angen unrhyw beth pellach arnoch, cysylltwch â ni yn ar FOIA.Requests@wales.nhs.uk.

O dan delerau polisi Rhyddid Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd, mae gan unigolion sy'n ceisio cael gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi ac a gedwir gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i ofyn am adolygiad mewnol o'r ffordd yr ymdrinnir â'u ceisiadau. Os byddwch chi am gwyno am y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â'ch cais, cysylltwch â mi'n uniongyrchol ar y cyfeiriad isod neu cofrestrwch eich cwyn drwy FOIA.Requests@wales.nhs.uk.

Pe baech chi'n dal yn anafdlon ar ôl Adolygiad Mewnol, byddai gennych yr hawl hefyd i gyfeirio'r mater at y comisiynydd gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH. Rhif Ffôn: 029 2067 8400.

Yn gywir



Pam Wenger

Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

